

## Gwybodaeth ategol - beth i'w anfon

Mae gwybodaeth ategol, a elwir hefyd yn 'tystiolaeth bellach', yn helpu ein gweithwyr proffesiynol yn y sector iechyd i ddeall sut mae eich cyflwr iechyd neu'ch anabledd yn effeithio arnoch chi.

Mae'n bwysig iawn cyflwyno gymaint o wybodaeth â phosibl ar ddechrau eich hawliad.

Mae'r canllaw byr hwn yn egluro pa fath o wybodaeth sy'n ddefnyddiol i ni.

### Y prif bethau i'w cofio:

- Mae unrhyw wybodaeth ynghylch sut mae eich cyflwr iechyd neu'ch anabledd yn effeithio arnoch chi'n ddefnyddiol.
- Nid oes rhaid i'r wybodaeth fod yn feddygol – mae gwybodaeth gan y bobl sy'n gwybod sut mae eich cyflwr iechyd neu'ch anabledd yn effeithio arnoch chi, fel eich ffrindiau, aelodau o'ch teulu a gweithwyr cymorth yn bwysig iawn hefyd.
- **Dylech ond anfon gwybodaeth neu ddogfennau sydd gennych chi'n barod.**
- Peidiwch â gwneud cais am unrhyw wybodaeth lle bydd angen i chi dalu ffi amdani, fel llythyr gan eich meddyg teulu.
- Peidiwch ag oedi cyn anfon eich ffurflen yn ôl oherwydd eich bod yn aros am wybodaeth ychwanegol – anfonwch yr hyn sydd gennych chi'n barod.
- Dylech gynnwys manylion cyswllt ar gyfer **pawb** sy'n gofalu amdanoch chi ar eich ffurflen.
- Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom ni, efallai y byddwn yn cysylltu â'r rheini sydd wedi'u nodi ar eich ffurflen.

### Gwybodaeth y gallech chi ei hanfon

- Rhestr o'r meddyginiaethau rydych chi'n eu cael ar bresgripsiwn ar hyn o bryd
- Dyddiadur neu lythyr gofalwyr
- Llythyrau rhyddhau gan ysbyty neu lythyrau gan glinigau cleifion allanol am eich cyflwr neu ddiagnosis a thriniaeth
- Adroddiadau neu gynlluniau gofal/triniaeth gan weithwyr proffesiynol sydd wedi eich trin neu gofalu amdanoch chi, ee
  - Therapydd galwedigaethol
  - Ffisiotherapydd
  - Nyrs seiciatrig cymunedol
  - Gweithiwr cymdeithasol
  - Tîm cymorth anableddau dysgu

Cofiwch **beidio â thalu** am unrhyw dystiolaeth feddygol. Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom ni, efallai y byddwn yn cysylltu â'r rheini sydd wedi'u nodi ar eich ffurflen.

### Gwybodaeth nad oes angen i chi ei hanfon

- Cardiau neu lythyrau apwyntiadau
- Llythyrau ysbyty
- Taflen ffeithiau am eich cyflwr
- Taflen ffeithiau am feddyginiaeth rydych chi'n ei chymryd
- Gwybodaeth am brofion y byddwch yn eu cael
- Tocynnau bws neu drên i'ch apwyntiadau
- Cyfarwyddiadau neu fapiau i apwyntiadau rydych chi wedi bod iddyn nhw
- Gwybodaeth rydych chi wedi'i hanfon at DWP o'r blaen ar gyfer PIP